

# **Arolygiad Dilynol o Ysbyty'r GIG (Dirybudd)**

Ysbyty Plant Cymru Arch Noa:  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd  
a'r Fro: Ward Ynys, Parth Pelican,  
Ward Gwdihw ac Uned Gofal  
Critigol Pediatrig

Dyddiad yr arolygiad: 12 a 13  
Mehefin 2017

Dyddiad cyhoeddi: 14 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	23
4.	Beth nesaf? .....	28
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol .....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .....	30
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol dirybudd o Ysbyty Plant Cymru Arch Noa o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 12 a 13 Mehefin 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau reolwr arolygu AGIC (y gwnaeth un ohonynt arwain yr arolygiad), dau adolygydd cymheiriaid clinigol, a dau adolygydd lleyg.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llwyr â'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd rhieni wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal roedd eu plentyn yn ei dderbyn gan staff chwarae, nyrsys, meddygon, ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill.
- Roedd dodrefn ychwanegol a theledu wedi cael eu hychwanegu at yr ystafell ymwelwyr yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig mewn ymateb uniongyrchol i'r hyn yr oedd perthnasau wedi'i amlygu mewn arolwg misol o brofiad y cleifion.
- Roedd y rhaglen sefydlu chwe wythnos oedd ar gael i gyflogeion newydd wedi arwain at sylwadau cadarnhaol iawn gan staff o ran y gefnogaeth roeddent yn ei derbyn gan fentoriaid enwebedig.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

Edrychwch ar Atodiad A yr adroddiad hwn am fanylion yr holl welliannau a nodwyd yn yr arolygiad hwn, y mae rhai ohonynt wedi'u nodi isod:

- Sicrhau bod digon o amser theatr ar gael ar gyfer llawdriniaethau;
- Agweddau ar reoli meddyginiaethau;
- Cofnodi gofal mewn nodiadau cleifion.

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Cefndir y gwasanaeth

Gwnaeth AGIC arolygu mannau clinigol yn Ysbyty Plant Cymru Arch Noa ddiwethaf ar 8 a 9 Hydref 2015.<sup>1</sup>

Yn ystod ein harolygiad yn 2015, gwnaethom nodi nifer fach o faterion cysylltiedig â darparu gwasanaethau a arweiniodd at gyflwyno llythyr sicrwydd ar unwaith AGIC i'r bwrdd iechyd. Roedd y problemau'n ymwneud â'r canlynol:

- Roedd angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan yr holl gleifion/plant fandiau adnabod ar eu harddyrnau. Roedd hyn yn unol ag egwyddorion gofal diogel a gweinyddu meddyginiaeth yn ddiogel, rheoli risg, ac iechyd a diogelwch.
- Dylai mesurau fod wedi bod ar waith i atal niwed difrifol lle canfuwyd bod gan gleifion alergeddau hysbys.

Roedd gofyn felly i'r bwrdd iechyd ddarparu cynllun sicrwydd ar unwaith wedi'i gwblhau ar gyfer AGIC gyda manylion y camau a gymerwyd o fewn cyfnod penodol o saith diwrnod. Gwnaeth cynnwys y cynllun hwnnw roi sicrwydd i AGIC fod camau priodol wedi cael eu cymryd.

Roedd agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau y gwnaethom nodi bod angen eu gwella (yn 2015) yn ymwneud â'r canlynol:

- Agweddau ar wybodaeth cleifion;
- Trosglwyddo cleifion o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion;
- Y modd yr oedd y bwrdd iechyd yn annog cleifion i leisio pryderon/cwynion;

---

<sup>1</sup> [Ysbyty Plant Cymru Arch Noa – Adroddiad Arolygu Hydref 2015](#)

- Agweddau ar gyflenwi gofal diogel ac effeithiol (er enghraifft, yr angen am gyfrinachedd cleifion, cadw cofnodion, a rhai problemau amgylcheddol);
- Sicrhau bod digon o staff cadw tŷ ar gael;
- Rhai agweddau ar reoli meddyginiaethau;
- Niferoedd digonol o staff ward;
- Cefnogaeth ar gyfer staff newydd a sefydledig o ran trefniadau sefydlu a hyfforddi.

Diben yr arolygiad cyfredol hwn felly oedd dilyn y cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â'r gwelliannau angenrheidiol uchod a nodwyd yn arolygiad 2015 AGIC.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Bron yn ddieithriad, gwnaeth y rhieni a siaradodd â ni ganmol y gofal a ddarperir gan yr holl staff. Gwnaethant hefyd roi sylwadau cadarnhaol iawn i ni am yr opsiynau bwyd oedd ar gael i'w plentyn, glendid y cyfleusterau, a'r cymorth roedd eu plentyn yn ei dderbyn gan y staff chwarae.

## Gwelliannau a nodwyd gennym

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod ein harolygiad diwethaf yn 2015 yn cynnwys y canlynol:

*Ward Ynys, Parth Pelican, Ward Gwdihw*

- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd gymryd camau i sicrhau bod safle'r ysbyty'n cydymffurfio â deddfwriaeth Mangreoedd Di-fwg gyfredol.
- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff bob amser yn cyflwyno eu hunain i gleifion a'u teuluoedd cyn unrhyw drafodaethau neu ymyriadau clinigol.

*Ward Ynys, Parth Pelican, Ward Gwdihw ac Uned Gofal Critigol Pediatrig*

- Roedd angen i'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo cleifion o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion fod yn fwy effeithlon a chael eu hategu gan gyfathrebu da rhwng gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau perthnasol.
- Roedd angen rhoi gwybod am a dangos yn amlwg y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli pryderon cleifion a pherthnasau.

## Y camau a ddywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Gwnaeth y gwasanaeth ymrwmo i gymryd y camau canlynol yn ei gynllun gwella (dyddiedig 17 Rhagfyr 2015):

- Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym y byddai Tîm Rheoli Cyfarwyddiaeth y gwasanaethau plant yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth Mangreoedd Di-fwg<sup>2</sup> yn cael ei phwysleisio i staff, cleifion ac ymwelwyr.
- Dywedodd y Bwrdd Clinigol Plant a Menywod wrthym y byddai'n cyflwyno'r fenter 'Helô, fy enw i yw'. Roedd pwysigrwydd sicrhau bod staff bob amser yn cyflwyno eu hunain i gleifion a'u teuluoedd cyn unrhyw drafodaethau neu ymyriadau clinigol hefyd i fod i gael ei rannu a'i atgyfnerthu mewn cyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf, a sesiynau briffio diogelwch y ward, ac roedd hefyd i fod i ffurfio rhan o'r rhaglen sefydlu ar gyfer staff sydd newydd gael eu penodi.

## Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom wahodd cleifion a/neu eu rhieni/gwarchodwyr i gwblhau holiadur AGIC er mwyn rhoi eu safbwyntiau a'u profiadau i ni o'r gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir yn yr ysbyty.

Gwnaethom dderbyn saith holiadur wedi'u cwblhau gan rieni neu warchodwyr; yr oedd y plant dan sylw wedi bod yn yr ysbyty am gyfnodau o rhwng un a dau ddiwrnod, a phythefnos.

Yn ddieithriad, dangosodd y canlyniadau o'r holiaduron fod y staff bob amser yn gwrtais tuag at y plant a'u teuluoedd. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni neu'r gwarchodwyr a gwblhaodd holiadur hefyd fod y staff yn garedig a sensitif i'w plant wrth iddynt ddarparu gofal a thriniaeth.

Nododd un rhiant y gellid bod wedi gofalu ei fod yn fwy cysurus wrth aros yn yr ysbyty gyda'i blentyn. Rhoddwyd sylwadau cadarnhaol am y staff hefyd yn yr holiaduron. Er enghraifft:

---

<sup>2</sup> Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg yng Nghymru ar 2 Ebrill 2007. Roedd y ddeddfwriaeth yn gwahardd ysmegu yn y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus caeëdig (neu gaeëdig i raddau helaeth), a'r nod oedd mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â dod i gysylltiad â mwg tybaco yn yr amgylchedd. Gobeithid hefyd y byddai'r gwaharddiad yn ysgogiad cynyddol i ysmygwyr i roi'r gorau iddi.

*"Alla' i ddim â chanmol y ward ddigon. Dyma ein hail arhosiad mewn pedwar mis ac mae'r staff yn rhagorol ac maen nhw'n ymgysylltu â fy mabi ar bob cyfle ac maen nhw'n hapus i roi maldod i'm galluogi i i dynnu llaeth pan fo angen. Maen nhw'n gyfeillgar iawn ac yn cymryd yr amser i ddod i'ch adnabod chi a'ch plentyn."*

*"Mae'r gofal mae fy mab yn ei dderbyn yn rhagorol; maen nhw bob amser yn gwneud i'm mab deimlo'n gyfforddus."*

*"Mae'r staff chwarae'n wych."*

Gwnaethom gynnal trafodaethau â'r rhieni ym mhob un o'r pedwar man clinigol y gwnaethom ymweld â nhw, a rhoddwyd cymaint o sylwadau cadarnhaol i ni am garedigrwydd a pharch y staff nyrsio a chwarae, yn ogystal â'r meddygon a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill. Dywedodd y rhieni wrthym hefyd fod y staff yn wasanaethgar iawn, yn esbonio agweddau ar ddarpariaeth gofal yn dda iawn, a'u bod yn cymryd yr amser i wrando ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni neu'r gwarchodwyr a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael cynnig i gyfathrebu â'r staff yn yr iaith o'u dewis; nododd pawb fod eu hanghenion ieithyddol wedi cael eu diwallu.

Roedd canlyniadau'r holiaduron AGIC yn rhoi adborth cadarnhaol am anghenion maethol a hydradol y plant sy'n derbyn gofal, heblaw am un atebwr. Dywedodd yr holl rieni a gwarchodwyr fod gan eu plentyn amser i fwyta'i brydau bwyd ar ei gyflymder ei hun, a gwnaethant nodi bod y staff yn helpu eu plentyn i fwyta neu yfed pe bai angen. Fodd bynnag, dywedodd un rhiant wrthym, *"Byddai mwy o fynediad at gymorth bwydo neu therapyddion iaith a lleferydd yn fuddiol."*

Yn ystod ein harolygiad blaenorol, canfuom fod man penodol o fewn Ward Ynys lle'r oedd staff yn gallu aroglu mwg, a oedd yn peryglu iechyd a diogelwch cleifion a staff. Roedd hyn am fod pobl yn ysmegu wrth gefn yr ysbyty. Yn ystod yr ymweliad hwn, cadarnhaodd y staff fod digwyddiadau o'r fath yn llai mynych ac roedd wardeiniaid di-fwg ac uwch-staff yn parhau i arsylwi ar holl fannau safle'r ysbyty i atgoffa cleifion, perthnasau ac ymwelwyr bod yr adeilad yn fan di-fwg. Roedd gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu a thafleuni cyngor ar gael i bobl a staff hefyd. Roedd yr holl bethau uchod yn golygu bod y bwrdd iechyd yn ymdrechu i gydymffurfio â deddfwriaeth adeiladau di-fwg.

Yn dilyn yr arolygiad yn 2015, roedd y bwrdd iechyd wedi nodi y byddai'n cyflwyno menter o'r enw 'Helô, fy enw i yw...' i godi ymwybyddiaeth ymhlith yr

holl staff am yr angen i gyflwyno eu hunain ar lafar wrth iddynt fynd at blant a'u teuluoedd. Er nad oedd y fenter honno wedi'i chyflwyno yn unol â'r disgwyl (oherwydd yr adnoddau cyfyngedig ar gael), dywedwyd wrthym fod y cotiau yn yr Uned Gofal Dwys Babanod Newydd-anedig bob amser yn cynnwys enw'r nyrs sy'n gofalu am bob babi. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am yr angen i gyflwyno eu hunain i'r plant a'u teuluoedd. Gwelsom arwyddion mewn gwahanol fannau yn y pedair ardal glinigol a arolygwyd ynglŷn â'r mater hwn. Yn ogystal, clywsom staff yn rhoi gwybod i gleifion a'u rhieni am eu henw cyn cychwyn trafodaethau. Roedd yr uchod yn golygu bod y bwrdd iechyd wedi gwneud cynnydd mewn perthynas â'r agwedd hon ar ddarpariaeth gwasanaeth.

Yn yr arolygiad hwn, gwnaethom siarad â phrif nyrsys wardiau, uwch-nyrsys, meddyg iau ac uwch-feddyg am drefniadau trosglwyddo gofal. O ganlyniad, canfuom fod gan rannau o'r gwasanaethau plant drefniadau trosglwyddo sefydledig ac effeithiol ar waith (er enghraifft ar gyfer plant â rhai cyflyrau hirdymor). Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau'r ymdrechion parhaus roedd y staff meddygol a nyrsio'n eu gwneud i wella'r sefyllfa ar gyfer plant a'u teuluoedd yn hyn o beth. Yn ogystal, dywedwyd wrthym y byddai cymrawd clinigol<sup>3</sup> yn ceisio gwneud cynnydd â gwasanaethau trosglwyddo o dymor yr hydref eleni. Fodd bynnag, roedd dal i fod sawl achos lle'r oedd cleifion ag anghenion cymhleth (a oedd yn hŷn nag 16 oed) yn parhau i brofi datgymaliadau yn eu gofal a'u cymorth ar adegau pan oedd angen gofal a thriniaeth arnynt yn yr ysbyty fel cleifion mewnol.

Wrth ymweld â'r pedwar man clinigol y gwnaethom eu harolygu, dywedwyd wrthym fod cleifion/perthnasau yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon oedd ganddynt wrth aelodau tîm y ward. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod staff newydd yn cael gwybod am y trefniadau sydd ar waith i ymateb i bryderon cleifion/perthnasau. Fodd bynnag, gwelsom fod hysbysiadau mewn perthynas â threfniadau GIG Cymru ar gyfer ymdrin â phryderon a'u rheoli naill ai'n absennol neu heb gael eu harddangos yn amlwg mewn tri o'r pedwar man clinigol yr ymwelwyd â nhw. Roedd hyn yn golygu y gallai fod adegau pan na fyddai cleifion a/neu eu teuluoedd yn gwybod sut i adrodd am eu pryderon, neu beth i'w ddisgwyl gan y bwrdd iechyd.

---

<sup>3</sup> Mae cymrawd clinigol yn feddyg sy'n ceisio hyfforddiant ôl-raddedig mewn disgyblaeth arbenigol neu is-arbenigol.

## Canfyddiadau ychwanegol

### Gofal amserol

Yn yr arolygiad hwn, datgelodd sgysiau â rhiant a staff ward fanylion digwyddiad neilltuol lle y bu'n rhaid i blentyn aros am saith diwrnod i fynd i'r theatr am weithdrefn fewnwithiol (ailosod dyfais mynediad fasgwlaidd hirdymor at ddibenion bwydo). Er i'r weithdrefn ofynnol gael ei chynnal eisoes ar adeg yr arolygiad hwn, canfuom nad oedd trefniadau theatr brys cyfredol a ffurfiol ar waith ar gyfer gwasanaethau plant o ran cynnal Ymchwiliadau Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion.<sup>4</sup> Yn ogystal, nid oeddem yn gallu canfod tystiolaeth bod gwasanaethau mynediad fasgwlaidd neilltuedig<sup>5</sup> ar gael yn Ysbyty Athrofaol Cymru (ar gyfer oedolion neu blant).

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/sydd i'w cymryd i sicrhau bod plant y mae angen llawdriniaeth/gweithdrefnau brys arnynt yn derbyn gofal o'r fath mewn da bryd.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/sydd i'w cymryd i sicrhau bod yr holl gleifion yn derbyn mynediad fasgwlaidd mewn da bryd.

### Gofal unigol

#### Hawliau pobl

Fel y nodwyd uchod (ar dudalennau 10 ac 11), roedd dal i fod sawl achos lle'r oedd cleifion ag anghenion cymhleth (ac a oedd yn hŷn nag 16 oed) yn parhau i

---

<sup>4</sup> Mae Ymchwiliadau Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion yn ymwneud â darpariaeth theatr llawdriniaethau 24 awr (a safonau ategol) ar gyfer llawdriniaeth frys.

<sup>5</sup> Cymdeithas Anesthetyddion Prydain Fawr ac Iwerddon – [Safe vascular access 2016](#), tud 11. "Rhaid i ysbytai drefnu a darparu'r canlynol: Gosod (a thynnu) cathetrau gwythiennol canolog hirdymor yn amserol (o fewn un i dri diwrnod) mewn lleoliadau arbenigol (wardiau, theatrau, radiolog) trwy wasanaeth penodol."

brofi rhywfaint o ddatgymaliadau yn eu gofal a chymorth fel cleifion mewnol yn yr ysbyty.

Yn yr arolygiad hwn, dywedwyd wrthym fod y cyfleuster arfaethedig i alluogi rhieni 30 o gleifion i aros yn agos at eu plant yn Ysbyty Plant Cymru Arch Noa wedi'i gwblhau ac yn mynd i gael ei agor i deuluoedd. Y gobaith oedd y byddai'r cyfleuster yn darparu'r cymorth a'r cysur ychwanegol ar gyfer rhieni a allai fod eu hangen arnynt.

Dangosodd trafodaethau â staff yr Uned Gofal Critigol Pediatrig fod bwrdd a chadeiriau ystafell fwyta a theledu wedi cael eu hychwanegu at yr ystafell deulu mewn ymateb uniongyrchol i sylwadau a wnaed mewn arolwg misol o brofiad cleifion. Canmolwyd y dull ymatebol hwn gan y tîm arolygu.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion llawn i AGIC am y modd y bydd yn sicrhau trosglwyddiad didrafferth o ran gofal cleifion o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn y tymor byr, canolig a hirach. Nodwyd bod angen gwella'r mater hwn yn arolygiad blaenorol AGIC yn 2015; mae'r gwasanaethau trosglwyddo cyfredol yn parhau i arwain at ofal cleifion mewnol datgymaiedig ar gyfer rhywfaint o blant dros 16 oed.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod hysbysiadau mewn perthynas â threfniadau GIG Cymru ar gyfer ymdrin â phryderon a'u rheoli naill ai'n absennol neu heb gael eu harddangos yn amlwg mewn tri o'r pedwar man clinigol yr ymwelwyd â nhw.

Amlygodd sgysiau â phrif nyrsys y ward fod arolygon cleifion/rhieni yn cael eu cwblhau'n fisol. At y diben hwnnw, roedd tri math o holiadur yn cael eu defnyddio ar gyfer tri gwahanol grŵp oedran plant (hyd at dair blwydd oed, pedair i naw oed, a deg i 18 oed). Roedd hyn er mwyn cydnabod gwahanol anghenion gofal a chymorth y plant. Ystyriwyd hyn i fod yn arfer da.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y modd y bydd yn sicrhau bod cleifion, teuluoedd a chynrychiolwyr sy'n defnyddio gwasanaethau yn yr ysbyty plant yn cael gwybod am y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli pryderon o fewn GIG Cymru. Codwyd y mater hwn yn ein harolygiad blaenorol yn 2015 ac mae'n dal i fod wedi'i ddatrys yn rhannol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y bwrdd iechyd yn parhau i roi pwyslais ar ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ers ein harolygiad blaenorol, cafodd gwelliannau eu gwneud mewn perthynas ag argaeledd polisïau a gweithdrefnau i gynorthwyo'r staff yn eu gwaith, diogelu gwybodaeth gyfrinachol cleifion, a'r trefniadau ar gyfer mynd i mewn i Ward Gwdihw a'i gadael. Roedd gwaith cynnal a chadw angenrheidiol i amgylchedd yr Uned Gofal Critigol Pediatrig wedi cael ei gwblhau hefyd.

Fodd bynnag, roedd dal angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag agweddau ar reoli meddyginiaethau a chofnodi gofal mewn nodiadau cleifion.

### **Gwelliannau a nodwyd gennym**

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

#### *Ysbyty Plant Cymru Arch Noa*

- Roedd angen i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff sy'n gweithio ym mhob ardal glinigol yn gallu cael gafael ar wybodaeth a chanllawiau polisi cyfredol a pherthnasol yn rhwydd i'w cynorthwyo wrth eu gwaith.
- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl weithwyr meddygol a nyrsio proffesiynol a staff perthnasol eraill yn gwybod lle mae gwybodaeth gyfrinachol cleifion bob amser.
- Roedd angen sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol bob amser yn y Parth Pelican. (Roedd hyn yn arbennig mewn perthynas â lleoliad a chynllun corlan y nyrsys).

- Roedd angen sicrhau trefniadau diogel ar gyfer cael mynediad at Ward Gwdihw ac ar gyfer gadael y ward.
- Roedd angen gwella agweddau ar yr amgylchedd yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig. Roedd hyn yn benodol mewn perthynas â'r system wresogi, tymheredd y dŵr, a'r system cloch larwm.
- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o oriau cadw tŷ ar gael yn Ysbyty Plant Cymru Arch Noa. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod safonau glendid a hylendid yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r ysbyty.
- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd gymryd camau i fynd i'r afael â phum agwedd ar reoli meddyginiaethau yr oedd angen eu gwella.
- Yn ystod ein harolygiad blaenorol, canfuom fod angen gwella nifer o agweddau ar gadw cofnodion er mwyn sicrhau y cyflenwir gofal diogel ac effeithiol mewn modd cyson.

## **Y camau a ddywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd**

Gwnaeth y gwasanaeth ymrwymo i gymryd y camau canlynol yn y cynllun gwella a gwblhaodd (dyddiedig 17 Rhagfyr 2015):

### *Ysbyty Plant Cymru Arch Noa*

- Gwnaeth y bwrdd iechyd ein hysbysu y byddai'r staff yn cael eu hannog i ddefnyddio mewnwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i fynd at bolisiâu/protocolau a chanllawiau.
- Roedd y cynllun gwella a gwblhawyd yn nodi bod staff meddygol wedi cael eu hatgoffa na ddylid tynnu nodiadau meddygol cleifion mewnol o fannau clinigol, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.
- Roedd sgriniau preifatrwydd i fod i gael eu gosod ar gyfrifiaduron. Gwnaeth y bwrdd iechyd ein hysbysu hefyd na fyddai nodiadau meddygol yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth mewn mannau clinigol.
- Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym fod y trefniadau ar gyfer cael mynediad at Ward Gwdihw ac ar gyfer gadael y ward wedi cael eu gwella i sicrhau bod cleifion a staff yn aros yn ddiogel.
- Roedd y cynllun gwella'n nodi bod tymheredd y dŵr yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig wedi cael ei newid a bod y system wresogi wedi'i



hatgyweirio. Fodd bynnag, nid oedd gwelliannau i'r botwm/teclyn rhybuddio ynghylch argyfwng wedi cael eu datrys yn llwyr.

- Roedd y cynllun gwella a gwblhawyd gan y bwrdd iechyd yn nodi y byddai argaeledd oriau glanhau yn cael ei fonitro'n agos iawn trwy'r Bwrdd Clinigol.
- Roedd y pum agwedd ar reoli meddyginiaethau y nodwyd y gellid eu gwella i fod i gael eu monitro trwy haparchwiliadau i'w cwblhau gan brif nyrsys y ward/uwch-nyrsys.
- Dywedodd y bwrdd iechyd y byddai'n atgyfnerthu pwysigrwydd safonau cadw cofnodion i'r holl weithwyr proffesiynol gofal iechyd.

## **Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol**

### *Ysbyty Plant Cymru Arch Noa*

Dangosodd sgysiau â rheolwyr ward a staff eraill fod ganddynt fynediad rhwydd at holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol y bwrdd iechyd, trwy fewnwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gyda chyfrifiaduron ar gael i staff mewn ystafelloedd adnoddau ac mewn lleoliadau eraill ar y ward. Roedd hyn yn eu cynorthwyo i ddarparu gofal a chymorth i gleifion o ddydd i ddydd.

Dywedodd prif nyrsys y ward wrthym y bu ychydig iawn o adegau pan oedd staff meddygol wedi mynd â chofnodion cleifion i ffwrdd o'r mannau clinigol heb gytundeb ymlaen llaw. Dywedwyd wrthym hefyd fod Ward Gwdihw wedi archebu cabinetau cloadwy ychwanegol i gadw'r swmp o wybodaeth cleifion a drinnir yn y man hwnnw. Fodd bynnag, gwelsom nifer fach o gofnodion cleifion nad oeddent yn cael eu goruchwyllo wrth ddesg y dderbynfa ar Ward Ynys.

Gwelsom fod sgriniau preifatrwydd wedi cael eu gosod ar gyfrifiaduron, a oedd yn sicrhau ei bod yn amhosibl gweld y wybodaeth ar y sgrin oni bai bod rhywun yn eistedd yn syth o'i blaen. Roedd hyn yn golygu na ellid gweld gwybodaeth o'r ochr ac na allai pobl a oedd yn mynd heibio gweld gwybodaeth. Gwelsom fod un sgrin breifatrwydd wedi cael ei thynnu oddi ar un cyfrifiadur ar Ward Ynys. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am glaf ar y sgrin ar y pryd. Er hynny, dygwyd hyn i sylw rheolwr y ward.

Eglurodd y staff y dylai'r tîm arolygu ddod i mewn i Ward Ynys a'i gadael trwy bwyntiau penodedig er mwyn hyrwyddo trefniadau diogelwch y cytunwyd arnynt. Canfuom hefyd fod trefniadau ar gyfer cael mynediad at Ward Gwdihw ac ar gyfer gadael y ward wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf. Roedd hyn yn bennaf am fod derbynnydd ward, a oedd yn gwirio diben ac enw'r holl ymwelwyr cyn caniatáu mynediad iddynt, wedi cael ei gyflogi. Fodd bynnag, ar

adeg yr arolygiad hwn, roedd un derbynnydd yn cael ei rannu rhwng Ward Pelican a Ward Ynys yn eu trefn, a oedd yn golygu bod desgiau derbynfeydd yn cael eu gadael heb neb i'w goruchwyllo. Codwyd y mater hwn ag uwch-reolwyr, a ddywedodd wrthym fod y sefyllfa'n mynd i gael ei datrys yn y dyfodol agos.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y system wresogi wedi cael ei thrwsio yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig, a dywedodd y staff fod y man clinigol bellach yn fwy cyfforddus ar gyfer cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd fod tymheredd y dŵr wedi cael ei addasu yn dilyn ein harolygiad blaenorol. Fodd bynnag, wrth bwysu'r botwm argyfwng wrth ochr gwely, roedd y panel lleoli yn dal i fethu â chyd-fynd yn gywir â'r gwely lle'r oedd angen sylw'r staff. Felly, roedd angen mynd i'r afael â'r mater hwn o hyd.

Dangosodd sgysiau â staff cadw tŷ nad oedd unrhyw oriau cadw tŷ ychwanegol wedi cael eu dosrannu ymhlith y wardiau. Fodd bynnag, roedd bellach yn ofynnol i'r staff weithio mewn manau penodol, a oedd yn eu helpu i ddeall yr hyn a ddisgwylid ohonynt, ac roedd nifer fach o staff 'symudol' yn cael eu gwasgaru ar draws yr ysbyty yn ôl yr angen. Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod tîm glanhau ymateb brys yn cael ei ddargyfeirio i lanhau manau, yn ôl y gofyn. Canfuom safon uchel o lendid ym mhob un o'r pedwar man clinigol a arolygwyd, ac roedd y staff i'w gweld yn gwisgo dillad diogelu personol yn briodol ac yn golchi eu dwylo ar ôl rhoi gofal a chymorth i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod sylw yn cael ei roi i atal traws-halogi.

Gan ystyried y trefniadau ar waith ynghylch rheoli meddyginiaethau, gwelwyd bod gan yr holl gleifion fanciau adnabod i leihau gwallau wrth roi meddyginiaethau. Gwelsom arwyddion rhybudd yn cael eu harddangos hefyd pan nodwyd bod gan gleifion alergeddau, ac nid oedd tymereddau'r oergell yn cael eu cofnodi mwyach yn y llyfr cyffuriau a reolir ar Ward Ynys. Dangosodd sgysiau â thimau ward fod trefniadau rheoli meddyginiaeth ledled manau clinigol yn cael eu harchwilio unwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, canfuom fod nifer o broblemau i'w gwella a amlygwyd yn ein harolygiad blaenorol yn dal i fod heb eu datrys ers ein harolygiad diwethaf (2015).

## **Canfyddiadau ychwanegol**

### **Gofal diogel**

### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd y panel lleoli mewn argyfwng yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig yn dal i fethu â chyd-fynd yn gywir â'r gwely lle'r oedd angen sylw'r staff.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau pellach a gymerwyd/sydd i'w cymryd i sicrhau bod y panel lleoli mewn argyfwng yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig yn dangos yn glir pa wely y mae angen i'r staff fynd iddo, yn ôl y gofyn.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd ffedogau a rhywfaint o gyfarpar diogelu personol arall yn cael eu storio ar gadeiriau yn y coridor ar Ward Ynys. O ganlyniad, gallai eitemau o'r fath ddisgyn i'r llawr a chael eu halogi, neu beri risg baglu.

Gwelsom fod yr oergell yn yr ystafell i berthnasau (ar Ward Ynys) yn llawn iawn o fwyd, a'i bod yn cynnwys bwyd babi wedi'i agor hefyd. Yn ogystal, roedd labeli â manylion llawn y plant dan sylw ar y bwyd babi, a oedd yn peryglu cyfrinachedd cleifion. Gwnaethom ddwyn y broblem honno, felly, i sylw tîm y ward.

Gwnaethom ofyn pa drefniadau oedd ar waith ar gyfer glanhau'r oergell ac er mwyn sicrhau bod bwyd sydd wedi mynd heibio i'w ddyddiad yn cael ei daflu. O ganlyniad, roedd yn amlwg nad oedd unrhyw drefniadau cytunedig/pendant ar waith. Roedd hyn yn golygu bod perygl y gallai cleifion a/neu berthnasau fwyta bwyd nad oedd bellach yn addas i'w fwyta.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn cael ei storio'n briodol ar Ward Ynys ac mewn unrhyw fan clinigol arall o fewn yr ysbyty plant.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod canllawiau diogelwch bwyd gofynnol yn cael eu dilyn o ran glanhau'r oergell yn yr ystafell i berthnasau ar Ward Ynys, ac o ran rheoli tymheredd a chynnwys yr oergell.

### Rheoli meddyginiaethau

Yn ystod yr ymweliad hwn, canfuom fod ychydig bach o welliant wedi cael ei wneud i agweddau ar reoli meddyginiaethau a oedd wedi cael eu nodi fel

meysydd yr oedd angen sylw arnynt yn ein harolygiad yn 2015. Roedd y problemau yn parhau fel a ganlyn:

- Nid oedd tymereddau dyddiol yr oergell yn cael eu cofnodi'n gyson (Ward Ynys).
- Roedd un o'r ddau siart meddyginiaeth cleifion a archwiliwyd ar Ward Ynys yn dangos bylchau lle dylai lofnodion fod wedi bod i ddangos bod eli croen yn cael ei daenu fel y rhagnodwyd. Nid oedd unrhyw godau perthnasol yn cael eu defnyddio i egluro bylchau o'r fath.
- Canfuwyd nad oedd yr ystafell feddyginiaeth ar Ward Ynys wedi'i chloi (am 12.10pm). Roedd hyn yn golygu y gallai unigolion anawdurdodedig fod wedi cael mynediad ati.
- Nid oedd yr oergell wedi'i chloi ac roedd tymheredd dyddiol yr oergell yn dal i gael ei gofnodi yn y llyfr cyffuriau a reolir ar Ward Gwdihw.
- Nid oedd y presgripsiwn ar gyfer hylifau mewnwythiennol yn siart un o'r cleifion wedi cael ei lofnodi gan feddyg. Roedd llythrennau cyntaf y meddyg dim ond yn bresennol ar gyfer eitemau rhagnodedig eraill lle dylai enw'r meddyg fod wedi'i nodi mewn llythrennau bras (Ward Gwdihw).
- Nid oedd ocsigen yn cael ei gofnodi fel cyffur presgripsiwn yng nghofnodion gweinyddu meddyginiaeth y cleifion mewn tri o'r pedwar man a arolygwyd (gyda'r Uned Gofal Critigol Pediatrig wedi'i hesgusodi rhag gwneud hyn am fod dull arall o gofnodi'n cael ei ddefnyddio).
- Roedd rhai o lofnodion y rhagnodwyr yn annarllenadwy yn y cofnodion gweinyddu meddyginiaeth mewn tri o'r pedwar man clinigol.
- Mewn achosion pan oedd staff yn cynnal gwiriadau/archwiliadau stoc dyddiol o gyffuriau a reolir, gwnaethom ganfod nad oeddent o hyd yn gwneud cofnod ar wahân i gofnodi eu gweithdrefn wirio ar dudalennau cyffuriau unigol. Yn hytrach, roeddent yn gwneud un cofnod cryno yn y llyfr cyffuriau a reolir i ddangos bod pob cyffur wedi cael ei wirio. Roedd hyn yn parhau i fynd yn groes i bolisi'r bwrdd iechyd.

Gwelsom fod nifer o silindrau ocsigen wedi'u diogelu trwy fracedi wal ar Ward Ynys. Fodd bynnag, roedd tri silindr ocsigen bach di-ateg pellach yn yr un ardal. Gwnaethom gynghori aelod o dîm y ward fod angen trefnu i'r silindrau sbâr gael

eu storio'n ddiogel. Roedd hyn er mwyn atal anafiadau damweiniol i gleifion, eu teuluoedd neu'r staff.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r holl agweddau ar reoli meddyginiaethau a amlygwyd fel agweddau i'w gwella yn ein harolygiad blaenorol a'r arolygiad presennol hwn.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i ddiogelu'r silindrau ocsigen sbâr ar Ward Ynys. Mae hyn er mwyn atal anafiadau damweiniol i gleifion, eu teuluoedd neu'r staff.

### Gofal effeithiol

#### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Wrth adolygu sampl o gofnodion y cleifion yn yr arolygiad hwn, gwelsom nad oedd dogfennau asesu poen bob amser yn gyflawn. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu cadarnhau a oedd effeithiolrwydd meddyginiaeth ragnodedig yn cael ei fonitro neu ei werthuso.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Cynghorir y bwrdd iechyd bod angen disgrifio sut y bydd yn sicrhau bod lefel anghysur, poen neu drallod cleifion yn cael ei hasesu a'i chofnodi'n rheolaidd. Mae hyn er mwyn darparu triniaeth/meddyginiaeth effeithiol a phriodol ar gyfer y cleifion.

### Cadw cofnodion

Yn ystod yr ymweliad hwn, rhoddwyd copi i ni o archwiliad o ddogfennau cleifion a oedd wedi cael ei gwblhau ar ddwy o'r wardiau ar 13 ac 16 Chwefror 2017 yn ôl eu trefn. Nid oedd y naill archwiliad na'r llall wedi'i ategu gan gynllun gweithredu. Roedd hyn yn golygu nad oeddem yn gallu cadarnhau a oedd unrhyw gamau wedi cael eu cymryd yn dilyn yr archwiliad.

Gwnaethom ystyried cynnwys saith o gofnodion ar draws y pedwar man clinigol a arolygwyd a chanfuom fod ychydig bach o welliant wedi cael ei wneud ers ein harolygiad yn 2015. (Noder nad oedd unrhyw bryderon blaenorol yn gysylltiedig

â dogfennau cleifion ar yr Uned Gofal Critigol Pediatrig.) Yn benodol, canfuom y canlynol:

- Roedd rhai agweddau ar nodiadau'r cleifion yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig yn fanwl a defnyddiol iawn i'r staff wrth ddarparu gofal. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd llyfrynnau/dogfennau asesiadau a chleifion dyddiol bob amser wedi'u cwblhau (er enghraifft, elfennau o fanylion personol cleifion a chwblhau dogfennau cydnabyddedig asesu poen ac asesu risg pediatrig) ym mhob un o'r pedwar man clinigol.
- Cofnodion annigonol o ran lleoliad cyflyrau/briwiau croen ynghyd â rheolaeth annigonol o'r fath gyflyrau.
- Canfuom fod y nyrsys yn llofnodi eu cofnodion yn y cynlluniau dyddiol, ond nid oeddent yn ysgrifennu eu henw neu deitl mewn llythrennau bras nac yn dyddio cofnodion yn ôl y gofyn.

Fodd bynnag, gwelsom fod rhywfaint o gynlluniau gofal clir ar waith ar Ward Ynys, Ward Pelican a Ward Gwdihw yn eu tro. Yn ogystal, dangosodd trafodaethau â'r staff ynghylch gofal gleifion ac arsylwadau ar yr hyn a oedd ar waith fod camau angenrheidiol wedi cael eu cymryd i sicrhau bod anghenion cleifion ar y cyfan yn cael eu diwallu.

Dywedwyd wrthym fod grŵp o staff proffesiynol wedi cael ei alw ynghyd ers ein harolygiad diwethaf a bod y grŵp hwn wedi cael y dasg o symleiddio a safoni diwyg a chynnwys dogfennau cleifion i'w defnyddio o fewn gwasanaethau plant yn y dyfodol. Roedd hyn er mwyn hyrwyddo arferion cadw cofnodion da, a fyddai'n cynorthwyo timau ward i ganfod a chofnodi anghenion cleifion ac ymateb i'w dymuniadau a'u hoffterau. Fodd bynnag, roedd yn amlwg yn ystod yr arolygiad hwn nad oedd cofnodion cleifion yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau safonau clinigol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i sicrhau bod arfer gorau'n cael ei gymhwyso o ran cadw cofnodion. Mae hyn er mwyn cefnogi'r staff wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i gleifion. Nodwyd yr agwedd hon ar ddarparu gwasanaeth fel maes i'w wella yn ystod ein harolygiad yn 2015.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ym mhob un o'r pedwar man clinigol yr ymwelwyd â nhw. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn y gweithle.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod ymgyrch recriwtio ragweithiol barhaus y bwrdd iechyd wedi arwain at sicrhau 45 aelod newydd o staff, a fyddai'n dechrau gweithio o fis Medi 2017.

### **Gwelliannau a nodwyd gennym**

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

#### *Ysbyty Plant Cymru Arch Noa*

- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y byddai'n sicrhau bod digon o staff ar gael ym mhob ward yn yr ysbyty plant i ddiwallu anghenion cleifion bob amser.
- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio sut y byddai'n sicrhau bod trefniadau rheoli gwelyau'n cael eu hadolygu er mwyn i uwch-nyrsys a phrif nyrsys y wardiau allu arwain, rheoli a chefnogi timau staff i gynnal ethos a chanlyniadau cadarnhaol i blant. Safonau Iechyd a Gofal
- Roedd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau i'w cymryd i sicrhau bod aelodau newydd o dimau wardiau ac aelodau sefydledig yn derbyn cymorth gan ymarferwyr datblygu arfer. Safonau Iechyd a Gofal

## Y camau a ddywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Gwnaeth y gwasanaeth ymrwmo i gymryd camau penodol yn y cynllun gwella a gwblhaodd (17 Rhagfyr 2015):

### *Ysbyty Plant Cymru Arch Noa*

- Datganodd y bwrdd iechyd y byddai'n parhau â'i waith gweithredol o recriwtio mwy o staff o bob rhan o'r DU a thramor. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd am y trefniadau sydd ar waith i adolygu lefelau staffio'n barhaus.
- Dywedodd y bwrdd iechyd wrthym fod unigolyn wedi cael ei recriwtio fel rheolwr 'llif cleifion'.<sup>6</sup> Roedd hyn er mwyn rhyddhau prif nyrsys y wardiau i gyflawni dyletswyddau proffesiynol craidd eu rôl.
- Dywedodd y bwrdd iechyd fod addysgwyr arferion yn cefnogi gwasanaethau oncoleg a gofal dwys newydd-anedig/pediatrig yn yr ysbyty plant, gyda mentoriaid hyfforddedig ar gael i staff eraill. Dywedodd hefyd fod nyrsys sydd newydd eu recriwtio yn derbyn rhaglen sefydlu bwrpasol a chyfnod o statws ychwanegol.

## Yr hyn a ganfuom yn ystod yr arolygiad dilynol

### *Ysbyty Plant Cymru Arch Noa*

Canfuom fod heriau o hyd mewn perthynas â sicrhau niferoedd staff digonol yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig. Roedd hyn oherwydd cyfuniad o dair swydd nyrsio wag yn ogystal â chyfnod mamolaeth. Canfuom hefyd nad oedd rhai o'r staff a gafwyd i weithio yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig o'r gronfa nyrsys bob amser yn ddibynadwy, ac roedd staff a gyflogwyd i weithio yn yr uned yn cael eu symud, ar brydiau, i fannau eraill o'r ysbyty i roi cymorth ychwanegol. Gwnaethom archwilio'r mater hwn, felly, a dywedwyd wrthym gan uwch-nyrsys nad oedd cleifion yn cael eu derbyn i'r Uned Gofal Critigol Pediatrig oni bai eu bod yn sicr bod nifer ddigonol o nyrsys cofrestredig yn bresennol. Dywedwyd wrthym hefyd, pan fo'r galw am wasanaethau'r Uned Gofal Critigol Pediatrig yn

---

<sup>6</sup> Ym maes gofal iechyd, mae'r term 'llif cleifion' yn gyffredinol yn cyfeirio at symud cleifion rhwng staff, wardiau ac adrannau ar hyd llwybr gofal.



cynyddu, fod staff (â sgiliau perthnasol) yn cael eu hanfon i'r uned o wardiau eraill i gefnogi'r tîm craidd.

Dangosodd trafodaethau pellach â phrif nyrsys y wardiau ac uwch-nyrsys y byddai 45 o aelodau staff newydd eu cymhwyso yn dechrau gweithio yn Ysbyty Plant Cymru Arch Noa o fis Medi 2017. Yn ogystal, byddai nifer y nyrsys dan hyfforddiant ym mhob ward yn cynyddu o saith i ddeg. Dywedwyd wrthym hefyd fod dull aciwtedd cleifion<sup>7</sup> Cymru gyfan newydd (i gynorthwyo â'r gwaith o bennu lefelau staffio a chymysgedd sgiliau) wrthi'n cael ei ragbrofi ar Ward Ynys. Roedd chwe mis o'r prawf eisoes wedi cael ei gwblhau, a byddai adolygiad llawn o'r trefniadau hynny'n cael ei gynnal o fewn cyfnod o 12 mis.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod dyletswyddau wedi'u dirprwyo'n dda iawn o brif nyrs Ward Ynys i'w dirprwy. Roedd hyn er mwyn ei gefnogi i gymryd rôl uwch yn y dyfodol. Roedd pob un o'r pedwar man clinigol a arolygwyd yn ddigynnwrf ac yn drefnus o ran darparu gofal cleifion ac amgylchedd y ward. Dangosodd sgysiaiu â staff hefyd fod holl aelodau timau'r ward yn cydweithio'n dda iawn.

Gwnaethom fynychu cyfarfod dyddiol (ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad) lle cynhaliwyd trafodaethau ynghylch llif y cleifion trwy'r ysbyty plant. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod cydweithredu da rhwng prif nyrsys y wardiau ac uwch-nyrsys i alluogi cleifion i adael yr ysbyty neu gael eu trosglwyddo'n ddiogel o un man clinigol i un arall (pe bai angen). Amlygodd trafodaethau ynghylch rôl y cydlynnydd llif cleifion fod y drefn hon yn gweithio'n dda iawn ac yn cynorthwyo prif nyrsys y wardiau ac uwch-nyrsys i gefnogi gofal uniongyrchol y cleifion. O ystyried pwysigrwydd rôl y cydlynnydd llif cleifion a'r ffaith bod y swydd yn mynnu cryn amser, dywedwyd wrthym y byddai creu rôl ddirprwyol o bosibl yn cael ei ystyried. Roedd hyn er mwyn sicrhau dilyniant o ran y math hwn o gymorth i'r holl fannau clinigol.

Dangosodd sgysiaiu â phrif nyrs ward fod Ward Pelican, Ward Ynys, a Ward Jyngl bellach yn cael elw o addysgwr arfer neilltuedig. Ystyriwyd bod y datblygiad newydd hwn yn gadarnhaol iawn ac yn welliant mawr ei angen o ran

---

<sup>7</sup> Gellir diffinio aciwtedd cleifion fel y mesuriad o ddwyster y gofal nyrsio y mae ei angen ar glaf. Mae system staffio sy'n seiliedig ar aciwtedd yn rheoleiddio nifer y nyrsys ar sifft yn ôl anghenion cleifion, ac nid yn ôl niferoedd cleifion crai.

meithrin sgiliau a hyder staff. Yn ogystal, dywedodd nyrs dan hyfforddiant a siaradodd â ni fod ganddi fentor penodedig a'i bod yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n dda yn ei gwaith.

Yn ystod trafodaethau ag uwch-nyrsys, disgrifiwyd natur a hyd rhaglen sefydlu'r staff ar y wardiau (chwe wythnos i gyd). Roedd y dull cymharol newydd hwn wedi bod yn destun i rywfaint o werthuso hyd yn hyn, gyda staff newydd yn cynnig sylwadau cadarnhaol dros ben am lefel y cymorth roeddent wedi'i derbyn. Canmolwyd y dull hwn gan AGIC am iddo gael ei ddylunio i gadw staff yn awr ac yn y dyfodol.

Gwnaeth sgysiau â phrif nyrs yr Uned Gofal Critigol Pediatrig arwain at sylwadau cadarnhaol iawn am y cymorth roedd y staff yn ei dderbyn gan y staff addysgu arferion. Dywedwyd wrthym fod digon o amser wedi'i neilltuo i'r staff gwblhau hyfforddiant ar-lein i'w cefnogi yn eu gwaith.

## **Canfyddiadau ychwanegol**

### **Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Rhoddwyd manylion menter 'lles' i ni a oedd wedi cael ei sefydlu yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig ers ein harolygiad yn 2015. Yn benodol, roedd grŵp o staff wedi derbyn hyfforddiant fel 'hyrwyddwyr' lles i greu tîm a allai gefnogi pobl eraill a oedd yn gweithio yn yr uned. Roedd hyn wedi arwain at adborth cadarnhaol iawn gan staff, a oedd yn gallu mynd at unrhyw un o'r hyrwyddwyr lles ar adegau pan oeddent yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt yn y gweithle. Roedd gan y tîm lles fynediad at a chymorth gan seicolegydd clinigol hefyd. Dywedwyd wrthym y gallai'r fenter hon gael ei chyflwyno ledled gwasanaethau plant oherwydd ei llwyddiant.

Dangosodd trafodaethau â phrif nyrsys y wardiau ac uwch-nyrsys fod achos busnes wedi cael ei baratoi i gael cytundeb (gan y Tîm Gweithredol) i ddefnyddio ardal dau wely yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig i ddarparu gofal ôl-driniaethol ar gyfer cleifion sy'n cael mathau penodol o lawdriniaeth i'r cefn. Roedd hyn am fod llawdriniaeth rhai cleifion sydd wedi'i chynllunio yn cael ei chanslo oherwydd y diffyg gwelyau ar Ward Gwdihw. Canmolwyd y gwasanaeth am ei ddull tuag at yr agwedd hon ar ofal a thriniaeth cleifion.

### **Staff ac adnoddau**

#### **Y gweithlu**

Gwnaethom siarad â staff sy'n gweithio ar Ward Pelican, a dywedwyd wrthym fod gweithwyr cymorth gofal iechyd ychwanegol yn cael eu sicrhau o'r gronfa

nyrsys sefydledig pan fo angen staff ychwanegol i gefnogi cleifion ag anghenion cymhleth. Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, y bu adegau diweddar lle nad oedd y staff a gyflenwyd yn meddu ar ddealltwriaeth neu brofiad perthnasol o wasanaethau plant. Roedd hyn yn golygu y bu'n rhaid i staff parhaol y ward ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol yn ystod eu sifft i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu bodloni.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y gweithwyr cymorth gofal iechyd a gyflenwir i wardiau'r plant yn meddu ar sgiliau perthnasol a chyfredol o ran gofalu am blant.

## 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws manau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau dilynol

Gall arolygiadau dilynol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw ar gyfer arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad â rhybudd, sy'n golygu y gall gwasanaeth gael hyd at 12 wythnos o rybudd am yr arolygiad.

Diben ein harolygiadau dilynol yw gweld pa welliannau mae'r gwasanaeth wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf.

Bydd ein harolygiadau dilynol yn canolbwyntio ar y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf. Golyga hyn y byddwn dim ond yn canolbwyntio ar y [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) sy'n berthnasol i'r meysydd hyn.

Yn ystod ein harolygiadau dilynol, byddwn bob amser yn ystyried agweddau perthnasol ar:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol. Byddwn hefyd yn tynnu sylw at unrhyw feysydd i'w gwella y mae angen eu gwneud o hyd.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Insert name

**Dyddiad yr arolygiad:** Insert date

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maen nhw'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw:** Cath Heath

**Swydd:** Cyfarwyddwr Nyrsio – Bwrdd Clinigol Merched a Phlant

**Dyddiad:** 16 Gorffennaf 2017

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Plant Cymru Arch Noa

**Dyddiad yr arolygiad:** 12 a 13 Mehefin 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd/sydd i'w cymryd i sicrhau bod plant y mae angen llawdriniaeth/gweithdrefnau brys arnynt yn derbyn gofal o'r fath mewn da bryd.	5.1 Mynediad amserol	<p>Mae'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Aciwt wedi sefydlu rhestr "llynynnau" neilltuedig i sicrhau bod gan yr holl blant fynediad fasgwlaidd megis llynynnau hir ac ati mewn da bryd.</p> <p>Mae rhestr o Ymchwiliadau Cyfrinachol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion ar waith ddwywaith yr wythnos ar hyn o bryd mewn theatrau plant sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Plant Cymru. Mae uwchreolwr sy'n gysylltiedig â'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Aciwt Plant yn</p>	<p>Pennaeth yr Is-adran Iechyd Aciwt Plant</p> <p>Y Bwrdd Clinigol / Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Wedi'i gyflawni</p> <p>Adolygu ym mis Medi 2017</p>



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		archwilio opsiynau ar hyn o bryd ar gyfer ehangu hyn ymhellach.		
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion llawn i AGIC am y modd y bydd yn sicrhau trosglwyddiad didrafferth o ran gofal cleifion o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn y tymor byr, canolig a hirach. Nodwyd bod angen gwella'r mater hwn yn arolygiad blaenorol AGIC yn 2015; mae'r gwasanaethau trosglwyddo cyfredol yn parhau i arwain at ofal cleifion mewnol datgymaledig ar gyfer rhywfaint o blant dros 16 oed.</p>	6.2 Hawliau pobl	<p>Yn y tymor byr, bydd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnal cyfarfod gweithredol wythnosol i drafod unrhyw gleifion unigol sy'n profi anawsterau gyda gwasanaethau trosglwyddo yn yr ysbyty plant. Mae'r gyfarwyddiaeth aciwt yn ymgysylltu ag arweinwyr clinigol ymgynghorol ar gyfer pob arbenigedd drwy gynnal cyfarfod i arweinwyr clinigol bob mis er mwyn trafod arfer da ac unrhyw rwystrau sy'n atal cleifion rhag cael eu trosglwyddo'n effeithiol.</p> <p>Yn y tymor canolig, bydd yr holl arweinwyr clinigol yn cael mynediad at warws data a byddant yn gweithio gydag uwch-reolwr sy'n gysylltiedig â'r gyfarwyddiaeth er mwyn ystyried yr angen am wasanaethau trosglwyddo yn yr ysbyty plant.</p> <p>Bydd cynlluniau yn y tymor hirach yn cael eu llywio gan ganlyniad prosiect</p>	Cyfarwyddwr Nyrsio y Bwrdd Clinigol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau	Adolygu ym mis Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gwella'r gwasanaeth gydag ymgysylltiad amlddisgyblaethol i gynnwys cynrychiolaeth gan y Bwrdd Clinigol drwy raglen Arwain Gwelliant mewn Diogelwch Cleifion y Bwrdd Iechyd Prifysgol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar lwybrau trosglwyddo ac yn nodi canlyniadau clir. Bydd yn dechrau ym mis Medi 2017.</p>		<p>Cyflwyniad ar gynllun y prosiect i gael ei gyflenwi ym mis Rhagfyr 2017.</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y modd y bydd yn sicrhau bod cleifion, teuluoedd a chynrychiolwyr sy'n defnyddio gwasanaethau yn yr ysbyty plant yn cael gwybod am y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli pryderon o fewn GIG Cymru. Codwyd y mater hwn yn ein harolygiad blaenorol yn 2015 ac mae'n dal i fod heb ei ddatrys.</p>	<p>6.3 Gwrando a dysgu o adborth</p>	<p>Sicrhau bod pob maes clinigol yn arddangos yr un poster 'Gweithio i Wella' ac yn cael mynediad at daflenni sy'n dangos sut i uwchgyfeirio pryder.</p> <p>Mae angen i'r holl brif nyrsys wardiau / nyrsys arwain sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal a bod gwybodaeth ynghylch profiad cleifion yn cael ei chasglu ledled</p>	<p>Uwch-nyrsys/Prif Nyrsys Wardiau ym mhob maes</p> <p>Uwch-nyrsys/Prif Nyrsys Wardiau ym mhob maes</p>	<p>Wedi'i gyflawni</p> <p>Cwblhawyd ac wedi'i sefydlu yn rhan o arfer</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>pob un o'r pedwar pedrant yn y fframwaith er mwyn sicrhau profiad cadarnhaol i'r claf – bydd hyn yn dechrau ar unwaith.</p> <p>Parhau i gasglu a gweithredu ar adborth drwy holiaduron boddhad cleifion sy'n briodol i oedran.</p> <p>Mae arsylwadau diweddar gan gymheiriaid o'r gofal a ddarperir wedi bod yn gadarnhaol a chraffwyd ar yr holl agweddau ar ofal. Mae hyn wedi cynnwys siarad â chleifion a'u rhieni. Bydd arsylwadau pellach gan gymheiriaid o archwiliadau gofal yn ystod tri mis cyntaf 2018.</p>	<p>Uwch-nyrsys/Prif Nyrsys Wardiau ym mhob maes</p> <p>Uwch-nyrsys/Prif Nyrsys Wardiau ym mhob maes</p>	<p>rheolaidd</p> <p>Cwblhawyd ac wedi'i sefydlu</p> <p>Ebrill 2018</p>
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau pellach a gymerwyd/sydd i'w cymryd i sicrhau bod y panel lleoli mewn	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a	Camau gweithredu ar unwaith – siart drosi ar y prif hysbysfwrdd.	Prif Nyrs Ward yr Uned Gofal Critigol Pediatrig	Wedi'i gyflawni

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>argyfwng yn yr Uned Gofal Critigol Pediatrig yn dangos yn glir pa wely y mae angen i'r staff fynd iddo, yn ôl y gofyn.</p>	<p>diogelwch</p>	<p>Yn y tymor canolig – adlinio'r rhifau i gyfateb â'r system cloch alw.</p>	<p>Arweinydd y Gwasanaeth Clinigol ar gyfer Ysbyty Plant Cymru</p>	<p>Hydref 17</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn cael ei storio'n briodol ar Ward Ynys ac mewn unrhyw fan clinigol arall o fewn yr ysbyty plant.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod canllawiau diogelwch bwyd gofynnol yn cael eu dilyn o ran glanhau'r oergell yn yr ystafell i berthnasau ar Ward Ynys, ac o ran rheoli tymheredd a chynnwys yr oergell.</p>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p>	<p>Brysio'r cais am waith cynnal a chadw i sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau gyda'r holl gyfarpar diogelu personol yn cael ei gadw mewn dalwyr y tu allan i giwbiclau.</p> <p>Glanhau'r holl oergelloedd unwaith yr wythnos a gweithiwr cymorth gofal iechyd i gofnodi'r tymheredd bob dydd. Gosod taflen wedi'i lamineiddio ar oergelloedd cleifion unigol yn amlinellu'r cyfrifoldebau ar gyfer glanhau a gwirio. Peidio â defnyddio labeli adnabod mwyach.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward</p> <p>Prif Nyrs y Ward</p> <p>Prif Nyrsys</p>	<p>Dalwyr cyfarpar diogelu personol yn eu lle</p> <p>Wedi'i gyflawni</p> <p>Wedi'i gyflawni</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd gwybodaeth ynghylch y safonau y dylid glynu atynt hefyd yn cael ei thrafod â rhieni pan fydd plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysbyty, a bydd taflen wybodaeth yn cael ei datblygu a'i rhannu ledled yr ysbyty plant.	Wardiau	Hydref 17
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r holl agweddau ar reoli meddyginiaethau a amlygwyd fel agweddau i'w gwella yn ein harolygiad blaenorol a'r arolygiad presennol hwn.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	<p>Yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd Prifysgol ynghylch archebu, storio, gwaredu, a rhagnodi a gweinyddu cyffuriau a reolir yn ddiogel o fewn polisi gofal eilaidd (2016), bydd y daflen yn Atodiad 1 yn cael ei defnyddio bellach i gofnodi cyffuriau a reolir ar y ward o leiaf unwaith y dydd.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol wedi datblygu Cod Meddyginiaethau ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, sy'n cyfuno polisiau a chanllawiau mewn un ddogfen. Mae hwn wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Bydwreigiaeth a Nyrsio Corfforaethol ac, ar hyn o bryd, mae'n cael ei lansio a</p>	<p>Nyrs Arwain / Uwch-nyrsys / Prif Nyrsys Wardiau</p> <p>Prif Nyrsys Wardiau</p>	<p>Wedi'i gyflawni</p> <p>Wedi'i gyflawni</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>bydd yn cael ei raeadru i bob maes clinigol. Mae'r cod yn gosod rolau a chyfrifoldebau yn glir a bydd ganddo ddyddiadau ail-ddilysu cyraeddadwy.</p> <p>Mae'r cod yn darparu canllaw clir er mwyn i'r safonau gael eu bodloni. Bydd y ddogfen hon yn cael ei thrafod yn ystod pob cwrs cynefino ar gyfer cofrestreion sydd newydd eu cymhwyso ac yn cael ei lansio i bawb drwy weithdai a seminarau; bydd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro drwy Werthusiadau / Adolygiadau Datblygiad Personol.</p> <p>Sicrhau bod yr holl oergelloedd yn gallu cael eu cloi ac wedi'u cloi. Y llyfr cofnodi tymheredd ar waith ar Ward Ynys a Ward Gwdihw.</p> <p>Parhau i asesu diogelwch a'r dull o storio meddyginiaethau fel rhan o'r gwaith arsylwi mewnol o ymweliadau</p>	<p>Prif Nyrsys Wardiau / Uwch-nyrsys</p> <p>Prif Nyrsys Wardiau</p> <p>Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio</p>	<p>Wedi'i gyflawni – bydd y cwrs cynefino yn cael ei gynnal ym mis Awst 2017.</p> <p>Ar unwaith</p> <p>Ar waith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gofal. Bydd yr holl ganfyddiadau yn cael eu hadrodd i Gyfarwyddwyr Nyrsio'r Bwrdd Clinigol.</p> <p>Bydd yr holl staff yn cael eu hatgoffa drwy sesiynau briffio diogelwch, ddwywaith y dydd, i sicrhau bod y drws i'r ystafell feddyginiaeth ar Ward Ynys yn cael ei gadw ar gau.</p> <p>Ymgymryd ag archwiliadau gan gymheiriaid ym mhob maes i sicrhau bod safonau uchel mewn rheoli meddyginiaethau yn cael eu hymgorffori – yn wythnosol i ddechrau am ddau fis ac yna'n fisol, gyda fferyllydd y bwrdd clinigol, am gyfanswm o chwe mis. Bydd cynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd o welliant.</p> <p>Bydd y broblem o ran llofnodion annarllenadwy yn cael ei thrafod â'r Cyfarwyddwr Clinigol. Mae</p>	<p>Nyrs Arwain / Uwch-nyrsys / Cyfarwyddiaeth / Fferyllydd y Bwrdd Clinigol</p> <p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p> <p>Tîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Wedi'i gyflawni</p> <p>Hydref 17</p> <p>Hydref 17</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC		<p>ymchwiliadau ar waith i ganfod a fyddai stampiau enw ar gyfer yr holl staff yn bosibl ac yn gynaliadwy. Yn y cyfamser, atgoffir yr holl staff o'r angen i ysgrifennu llofnodion darllenadwy drwy gyrsiau cynefino / sesiynau briffio ar ddiogelwch.</p> <p>Mae'r staff nyrsio wedi cael eu hatgoffa drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch ddwywaith y dydd na ddylent weinyddu meddyginiaeth os nad ydynt yn gallu adnabod yn hawdd llofnod yr unigolyn a ragnododd.</p> <p>O ran rhagnodi ocsigen, ysgrifennwyd llythyr ac fe'i hanfonwyd at yr holl gydweithwyr sy'n ymgynghorwyr ac yn nyrsys. Cafodd ymgyrch ei chreu i dargedu hyn dan arweinyddiaeth ein tîm resbiradol pediatrig arbenigol. Mae posteri wedi cael eu datblygu a'u harddangos a bydd hapwiriadau o siartiau cyffuriau yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod ocsigen yn cael ei ragnodi.</p>	<p>Prif Nyrs y Ward</p> <p>Nyrs Arwain / Uwch-nyrsys / Ymgynghorwyr Arwain / Prif Nyrsys Wardiau</p> <p>Y Prif Fferylllydd</p>	<p>Wedi'i gyflawni</p> <p>Ar unwaith</p> <p>Wedi'i gyflawni a</p>



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>am y camau a gymerwyd i ddiogelu'r silindrau ocsigen sbâr ar Ward Ynys. Mae hyn er mwyn atal anafiadau damweiniol i gleifion, eu teuluoedd neu'r staff.</p>		<p><b>BWRDD IECHYD</b></p> <p>Parhau proses sy'n sicrhau bod yr holl staff meddygol newydd yn ymgymryd â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Modiwl e-ddysgu ar siart gyffuriau, sydd yn ei dro yn caniatáu mynediad at system Trawsgrifio Meddyginiaeth a Rhyddhau Electronig (MTED).</li> </ul> <p>Mae'r holl staff meddygol yn cael ap y Canllaw ar Ragnodi Da wedi'i roi ar ddyfeisiau symudol yn ystod y cwrs cynefino ac mae hefyd ar gael er eu "bwrdd gwaith".</p> <p>Mae'r holl fyrddau clinigol yn cryfhau archwiliadau sy'n ymwneud â meddyginiaethau (h.y. llwyddiant o &gt;95% o ran y safonau rhagnodi a gweinyddu).</p> <p>Bydd dangosyddion perfformiad</p>	<p>Y Prif Fferylllydd</p> <p>Y Prif Fferylllydd</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso</p> <p>Y Prif Fferylllydd</p>	<p>sefydlu</p> <p>Wedi'i gyflawni a sefydlu</p> <p>Mawrth 2018</p> <p>Mawrth 2018</p> <p>Sefydlwyd fel rhan o arfer arferol</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>allweddol ar gyfer meddyginiaeth, sy'n seiliedig ar yr archwiliad misol o fewn byrddau clinigol, yn parhau i ffurfio rhan o adolygiadau o berfformiad byrddau clinigol.</p>	Y Prif Fferylllydd	Mawrth 2018
		<p>Mae adroddiadau cenedlaethol ar ddangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â rhagnodi a meddyginiaethau yn cael eu defnyddio i lywio camau gwella.</p> <p>Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod y dull o storio, diogelu a gwaredu ar feddyginiaethau yn cydymffurfio â safonau'r Bwrdd Iechyd Prifysgol.</p>	Y Prif Fferylllydd	Mawrth 2018
		<p>Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael ei sefydlu i gryfhau'r cymorth ar gyfer rhagnodwyr nad ydynt yn feddygol a chael cytundeb o ran strategaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cyfrannu'n rhagweithiol at gynlluniau Cymru gyfan i adnewyddu ac</p>	Y Prif Fferylllydd  Uwch-nyrs Addysg	Rhagfyr 2018  Wedi'i sefydlu ac ar waith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>atgyfnerthu gwaith ar Weinyddu, Cofnodi, Adolygu a Storio Meddyginiaethau (MARRS) sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru. Wrth i argymelliadau gael eu hamlygu gan y grŵp, bydd camau gweithredu yn cael eu cymryd o fewn y Bwrdd Iechyd Prifysgol.</p> <p>Bydd offeryn e-ddysgu yn cael ei ddatblygu dan nawdd grŵp MARRS Cymru gyfan ac yn cael ei roi ar waith pan fydd ar gael.</p> <p>Bydd staff nyrsio newydd ym Mand 5 yn parhau i fynychu'r gweithdy Rheoli Meddyginiaethau ar sail apwyntiad.</p> <p>Mae'n ofynnol i'r holl nyrsys cofrestredig gwblhau diwrnod hyfforddi i ddysgu sut i weinyddu cyffuriau yn fewnwythiennol, sy'n cynnwys asesiad o gymhwysedd.</p> <p>Mae silindrau gwag wedi cael eu casglu, ac atgoffwyd staff y ward i sicrhau bod</p>	<p>Uwch-nyrs Addysg</p> <p>Prif Nyrsys Wardiau</p> <p>Y Prif Fferylllydd</p>	<p>Wedi'i gyflawni a sefydlu</p> <p>Wedi'i gyflawni</p> <p>Mawrth 2018</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol		Amserlen
		<p>silindrau gwag yn cael eu casglu a'u symud i ardal ddiogel.</p> <p>Ymgwymerwyd ag archwiliad ar draws yr holl fwrdd iechyd mewn perthynas â silindrau ocsigen ac mae camau ar y gweill i'w had-drefnu'n briodol.</p>			
<p>Cynghorir y bwrdd iechyd bod angen disgrifio sut y bydd yn sicrhau bod lefel anghysur, poen neu drallod cleifion yn cael ei hasesu a'i chofnodi'n rheolaidd. Mae hyn er mwyn darparu triniaeth/meddyginiaeth effeithiol a phriodol ar gyfer y cleifion.</p>	<p>3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol</p>	<p>Mae tîm y Gyfarwyddiaeth Iechyd Plant yn cymryd rhan yn y gwaith o werthuso a datblygu dogfennaeth. Bydd hyn yn tynnu sylw at offer asesu poen.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthuso a dogfennau Safonau Nyrsio yn gyffredinol.</li> </ul> <p>Bydd offer asesu poen yn cael eu hadolygu gyda'r tîm poen i sicrhau eu heffeithiolrwydd. Archwilio dogfennaeth am effeithiolrwydd unrhyw ymyriad, e.e. tynnu sylw, analgesia ac ati.</p> <p>Bydd archwiliadau o ddogfennaeth yn cael eu cynnal yn fisol nes bod y safon ofynnol yn cael ei bodloni'n gyson.</p>	<p>Prif Wardiau Nyrsys</p> <p>Prif Wardiau Nyrsys</p> <p>Prif Nyrsys</p>	<p>Rhagfyr 17</p> <p>Archwiliadau misol yn y lle cyntaf</p> <p>Adolygu mis Rhagfyr 2018</p>	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod arfer gorau'n cael ei gymhwyso o ran cadw cofnodion. Mae hyn er mwyn cefnogi'r staff wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i gleifion. Nodwyd yr agwedd hon ar ddarparu gwasanaeth fel maes i'w wella yn ystod ein harolygiad yn 2015.</p>	3.5 Cadw cofnodion	<p>Datblygiad parhaus o'r tîm dogfennaeth i fynd i'r afael â –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwerthusiad nyrsio</li> <li>• Offer asesu</li> <li>• Gwahodd cynrychiolwyr o'r adran gyfreithiol i sesiynau cyflenwi ar bwysigrwydd cadw cofnodion da ar gyfer yr holl staff.</li> <li>• Tynnu sylw'r staff at safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ynghylch cadw cofnodion.</li> <li>• Cynnal archwiliad o ddogfennaeth er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu cadw.</li> </ul>	<p>Wardiau</p> <p>Prif Nyrsys Wardiau</p>	Rhagfyr 17
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod y gweithwyr cymorth gofal iechyd a gyflenwir i wardiau'r plant yn meddu ar sgiliau perthnasol a chyfredol o ran gofalu am blant.</p>	7.1 Y gweithlu	<p>Bydd Ysbyty Plant Arch Noa Cymru yn mabwysiadu Fframwaith Sgiliau Craidd a Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd Prifysgol ar gyfer gweithiwr cymorth gofal iechyd, gan sicrhau y bydd yr elfennau sy'n berthnasol i blant yn cael eu cynnwys ar</p>	<p>Nyrs Arwain / Uwch-nyrsys</p> <p>Nyrs Arwain /</p>	<p>Medi 17</p> <p>Ar unwaith</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gyfer hyfforddiant.</p> <p>Bydd trafodaethau yn cael eu cynnal â'r uwch-nyrs sy'n gyfrifol am staffio dros dro i sicrhau bod unrhyw weithwyr cymorth gofal iechyd eraill sy'n cael eu lleoli yn yr ysbyty plant yn meddu ar y sgiliau sy'n ofynnol i ofalu am blant. Ystyried datblygu safonau gofynnol i rannu â'r gronfa nyrsys?</p>	Uwch-nyrsys	Hydref 2017

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Cath Heath

**Swydd:** Cyfarwyddwr Nyrsio – Bwrdd Clinigol Merched a Phlant

**Dyddiad:** 20 Gorffennaf 2017